Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Competition Brief

## Competition Title

Carpentry

## Competition Overview

Carpenters use their skills to cut, fit and assemble wood structures and fittings such as roofs, windows and doors.

In this competition, competitors have to complete a specific project designed to challenge their ability to follow detailed instructions, produce accurate and neat work outputs, and be economical with materials while working to strict timescales – all essential requirements for today's construction industry.

Live competition heats will be held at various venues across Wales

## Entry Criteria

The competition is for those training for a career in the Construction Industry and studying towards but not yet achieved a Level 3 qualification or apprenticeship.
Please ensure that your entrants have attempted the competition drawing and have the required skills and competences to complete the task.

## Entry capacity restrictions by organisation

Each organisation may register a **maximum of 2 competitors per location** for this competition. **Reserves** may also be registered to account for potential absences or withdrawals.
This is the maximum number of entries permitted by an organisation for this competition. This is determined by 'location' and 'organisation'. 'Organisation' refers to the competitors' training provider/employer. 'Location' refers to a site where the competitor studies / is employed.

This competition may be subject to a selection process if competitor registration numbers exceed the host venue capacity. Where capacity is identified in a competition the reserve competitors may be invited to compete.
The decision will be made following a consultation between Skills Competition Wales and the competition lead after registration closes. All parties will be notified of any changes.

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2027 – Skills Competition Wales 2027

For further guidance on these capacities, click here.

**Task Duration**
5 Hours

## Brief

Competitors will be given a drawing, and must complete a carpentry task which will challenge their ability to follow detailed instructions, produce accurate and neat work outputs, and be economical with materials whilst working to strict timescales and comply with Health & Safety – all essential requirements for today's construction industry.

All trainees are expected to be able to follow drawings, measure accurately, effectively plan their time, demonstrate competence with tools and keep workstations clean and tidy.

They will have to demonstrate the following skills:

- Use of different types of timbers
- Correct joints
- Accurate measurements

Tasks will consist of 3 modules
**Module 1** - Construction of basic studwork wall
**Module 2** - Construction of roofing element
**Module 3** - Speed challenge cutting and fixing of skirting and architrave (30 minutes max, additional 5% marks available for completing the speed challenge successfully and to the required standard).

Previous competition briefs are available to view and download via the Skills Competition Wales website, please click here to access.

## Infrastructure List

Competitors are required to bring their own tools. There will be benches and vices at the venue as well as bench hooks and bins for plastic and wood wastes.

## Competition Rules

For full terms and conditions of entry and competition rules visit.

### Generic competition rules

- Mobile phones are to be switched off during competition activity.
- Listening to music via headphones is not permitted during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- Competitors should not communicate with other competitors during competition activity.

- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.
- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.

## Marking and Assessment

Marking and judging of this competition will be carried out by a team of experts from industry, further education or training providers, using marking criteria and allocated marks to ensure consistency.

All marks are objective and will be awarded by the judges as follows: module 1 equates to 50% of the overall mark, module 2 equates to 45% and module 3 equates to 5%. Please see below a brief breakdown of marking and assessment.

Time deductions will be made for not following Health & Safety procedures.

| | **Criteria** | **Marks** |
|---|---|---|
| A | Drawing and setting out | 10% |
| B | Internal joints | 10% |
| C | Dimensions | 35% |
| D | External joints | 35% |
| E | Neatness of finish | 10% |
| F | Deductions for new pieces<br>(-3 for first replacement piece and -1% for pieces thereafter). | -3 to -1% |
| | **Total** | **100%** |

## Feedback and Recognition

Individual and Group verbal feedback will be provided at the end of the competition. No results or awards will be awarded on the day as marking will be quality assured.

All competitors will be issued with a Participation Certificate on the competition day. First, second, third and highly commended awards will be announced during the celebration event. The highly commended award recognises all competitors who have achieved above average. The celebration event will be held on Thursday 18th March 2027, further details will be communicated to competitors and their points of contact by email.

Marksheets will be available upon request via info@skillscompetitionwales.ac.uk to competitors after the celebration event.

## Competition Lead

**Lead Contact:** Lewis Jones
Email address - L.Jones1@merthyr.ac.uk

## Our partners

This competition is delivered in partnership with

Y Coleg Merthyr Tudful
The College Merthyr Tydfil

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Briff y Gystadleuaeth

## Enw'r Gystadleuaeth

Gwaith Coed

## Trosolwg o'r Gystadleuaeth

Mae seiri coed yn defnyddio eu sgiliau i dorri, gosod, ac adeiladu strwythurau a ffitiadau pren fel toeau, ffenestri a drysau.

Yn y gystadleuaeth hon, bydd angen i'r cystadleuwyr gwblhau prosiect penodol sydd wedi'i gynllunio i herio eu gallu i ddilyn cyfarwyddiadau manwl, i gynhyrchu gwaith cywir a thaclus, ac i fod yn ddiwastraff â'u deunyddiau o fewn amserlen gaeth – sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer y diwydiant adeiladu heddiw.

Cynhelir rowndiau rhagbrofol byw mewn sawl lleoliad ledled Cymru.

## Gofynion Mynediad

Mae'r gystadleuaeth ar gyfer y rhai sy'n hyfforddi ar gyfer gyrfa yn y Diwydiant Adeiladu ac sy'n astudio tuag at gymhwyster Lefel 3 neu brentisiaeth ond nad ydynt eto wedi'u hennill.

Gwnewch yn siŵr bod eich ymgeiswyr wedi rhoi tro ar y gystadleuaeth ac fod ganddyn nhw'r sgiliau a'r cymwyseddau angenrheidiol i gwblhau'r dasg.

## Cyfyngiadau capasiti mynediad yn ôl sefydliad

Gall pob sefydliad gofrestru **uchafswm o 2 cystadleuydd ym mhob lleoliad** ar gyfer y gystadleuaeth hon. Gellir cofrestru **cronfeydd wrth gefn** hefyd i gyfrifon absenoldeb neu dynnu'n ôl os bydd angen.

Dyma'r nifer mwyaf o gystadleuwyr a ganiateir o bob sefydliad ar gyfer y gystadleuaeth hon. Penderfynir ar hyn yn ôl 'lleoliad' a 'sefydliad'.  Mae 'sefydliad' yn cyfeirio at gyflogwr/darparwr hyfforddiant y cystadleuwyr. Mae 'lleoliad' yn cyfeirio at y safle lle mae'r cystadleuydd yn astudio/cael eu cyflogi.

Gall y gystadleuaeth hon fod yn destun proses ddethol os yw'r niferoedd cofrestru cystadleuwyr yn fwy na chapasiti'r lleoliad cynnal. Lle nodir bod capasiti ar gyfer y gystadleuaeth, gellir gwahodd cystadleuwyr wrth gefn i gystadlu.
Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud yn dilyn ymgynghoriad rhwng Cystadleuaeth Sgiliau Cymru ac arweinydd y gystadleuaeth ar ôl i'r cofrestru gau. Bydd pob parti yn cael gwybod am unrhyw newidiadau.

Am ragor o wybodaeth am y cyfyngiadau hyn, cliciwch yma.

**Hyd y dasg**
5 awr

## Briff

Bydd cystadleuwyr yn derbyn darlun, a bydd angen iddynt gwblhau tasg gwaith coed a fydd yn herio eu gallu i ddilyn cyfarwyddiadau manwl, i gynhyrchu gwaith cywir a thaclus, ac i fod yn ddiwastraff â'u deunyddiau o fewn amserlen gaeth a chan ddilyn rheolau Iechyd a Diogelwch – sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer y diwydiant adeiladu heddiw.

Disgwylir y bydd yr holl hyfforddeion yn gallu dilyn darluniau, mesur yn gywir, cynllunio eu hamser yn effeithiol, dangos eu gallu gydag offer, a chadw gweithfannau yn lân ac yn daclus.

Bydd angen iddynt ddangos y sgiliau canlynol:

- Defnyddio gwahanol fathau o bren
- Uniadau cywir
- Mesuriadau manwl gywir

Bydd y tasgau yn cynnwys 3 modiwl sef
**Modiwl 1 -** Adeiladu wal waith styd sylfaenol
**Modiwl 2** - Adeiladu elfen toi
**Modiwl 3** - Her cyflymder torri a gosod sgyrtin ac architraf (uchafswm o 30 munud, 5% o farciau ychwanegol ar gael ar gyfer cwblhau'r her cyflymder yn llwyddiannus ac i'r safon ofynnol).

Mae briffiau cystadleuaeth flaenorol ar gael i'w gweld a'u llwytho o'r wefan Cystadleuaeth Sgiliau Cymru, cliciwch yma i gael mynediad iddynt.

## Rhestr Seilwaith

Bydd angen i gystadleuwyr ddod â'u hoffer eu hunain. Bydd meinciau a feisiau yno, yn ogystal â bachau mainc a biniau ar gyfer gwastraff plastig a phren.

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2027 – Skills Competition Wales 2027

## Rheolau'r Gystadleuaeth

I weld y telerau ac amodau mynediad a'r rheolau cystadlu yn eu cyfanrwydd [ewch i](#):

### Rheolau Cystadlu Cyffredinol

- Rhaid diffodd ffonau symudol yn ystod y gweithgareddau cystadlu.
- Ni chaniateir gwrando ar gerddoriaeth gyda chlustffonau yn ystod y gweithgareddau cystadlu.
- Os bydd unrhyw gwestiynau yn ystod y gweithgareddau cystadlu, dylid eu cyfeirio at banel beirniaid y gystadleuaeth.
- Ni ddylai cystadleuwyr gyfathrebu â chystadleuwyr eraill yn ystod gweithgareddau cystadlu.
- Cyfrifoldeb pob cystadleuydd yw cyrraedd yn brydlon ar gyfer pob sesiwn o'r gystadleuaeth. Ni chaniateir amser ychwanegol os byddwch yn cyrraedd yn hwyr.
- Os bydd methiant technegol ar eich offer dylech hysbysu'r panel beirniadu ar unwaith. Bydd amser ychwanegol yn cael ei ganiatáu os yw'r nam y tu hwnt i reolaeth y cystadleuydd.

## Marcio ac Asesu

Caiff y gwaith o farcio a beirniadu'r gystadleuaeth ei gynnal gan dîm o arbenigwyr o Ddarparwyr Hyfforddiant, Addysg Bellach, neu Ddiwydiant gan ddefnyddio meini prawf marcio a marciau wedi'u dyrannu i sicrhau cysondeb.

Mae pob marc yn wrthrychol a byddant yn cael eu dyfarnu gan y beirniaid fel a ganlyn: mae modiwl 1 yn cyfateb i 50% o'r marc cyffredinol, mae modiwl 2 yn cyfateb i 45% ac mae modiwl 3 yn cyfateb i 5%. Gweler isod ddadansoddiad byr o'r marciau a'r asesu.

Bydd y cystadleuwyr yn colli marciau ar sail amser am beidio â dilyn gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch.

| | | |
|---|---|---|
| A | Darlunio a gosod | 10% |
| B | Uniadau mewnol | 10% |
| C | Dimensiynau | 35% |
| D | Uniadau allanol | 35% |
| E | Taclusrwydd gwaith | 10% |
| F | Marciau a dynnir am ddarnau newydd<br>(-3% ar gyfer y darn cyfnewid cyntaf ac -1% ar gyfer darnau wedi hynny). | -3% i -1% |
| | **Cyfanswm** | **100%** |

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2027 – Skills Competition Wales 2027

## Adborth a Chydnabyddiaeth

Bydd adborth llafar Unigol a Grŵp yn cael ei ddarparu ar ddiwedd y gystadleuaeth. Ni roddir canlyniadau na gwobrau ar y diwrnod gan y bydd angen sicrhau ansawdd y marcio.

Bydd pob cystadleuydd yn cael Tystysgrif Cyfranogi ar ddiwrnod y gystadleuaeth. Bydd gwobrau cyntaf, ail, trydydd a chanmoliaeth uchel yn cael eu cyhoeddi yn ystod y digwyddiad dathlu. Mae'r wobr canmoliaeth uchel yn cydnabod yr holl gystadleuwyr sydd wedi cyflawni sgôr uwch na'r cyfartaledd. Cynhelir y digwyddiad dathlu ar Dydd Iau 18 Mawrth 2027 , bydd manylion pellach yn cael eu rhoi i gystadleuwyr a'u pwyntiau cyswllt trwy e-bost.

Bydd taflenni marciau ar gael ar gais drwy info@skillscompetitionwales.ac.uk i gystadleuwyr ar ôl y digwyddiad dathlu.

## Arweinydd Cystadleuaeth

**Prif Gyswllt:** Lewis Jones
Email address - L.Jones1@merthyr.ac.uk

## Ein partneriaid

Mae'r gystadleuaeth hon yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth â

Y Coleg Merthyr Tudful
The College Merthyr Tydfil